



TAFLEN WYBODAETH POLISI CODI TÂL DIBRESWYL

Codi Tâl am Wasanaethau Dibreswyl

Ar hyn o bryd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn codi tâl am rai gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys:

- Gwasanaethau Gofal Cartref a Chymorth Cartref (gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol);
- Gofal Dydd (sylwer: codir taliadau am brydau bwyd ar wahân ac fe'u gwneir yn uniongyrchol i'r darparwr);
- Lleoliadau Tenantiaethau â Chymorth
- Gwasanaethau Cymorth Unigol
- Lleoliadau Oedolion
- Gofal Tymor Byr (hyd at 8 wythnos)

Pam rydym yn codi tâl am wasanaethau?

Nid yw'r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Gyngor Dinas Casnewydd bob blwyddyn i dalu am wasanaethau yn ddigon, felly mae gennym bolisi codi tâl ar waith i wneud iawn am y diffyg. Mae codi tâl am wasanaethau yn ein galluogi i gynnal gwasanaethau hanfodol i bobl hŷn a phobl ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl.

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth benderfynu ar swm y taliadau sy'n berthnasol mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted>

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer un fframwaith cyfreithiol ar gyfer codi tâl am ofal a chymorth, neu yn achos gofalwr, codi tâl am gymorth. Bwriad y fframwaith codi tâl ac ariannol a gyflwynir gan y Ddeddf yw sicrhau bod y broses o godi tâl yn gyson, yn deg ac yn cael ei deall yn glir.

Beth yw'r newidiadau?

Bu'n rhaid gwneud newidiadau i'r polisi codi tâl dibreswyl yn dilyn newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y prif newidiadau sy'n effeithio ar drigolion Casnewydd yw:

- O 11 Ebrill 2022, ni ddylai'r uchafswm y gellir ei godi am wasanaethau dibreswyl fod yn fwy na £100.00 yr wythnos.
- Y terfyn trothwy cyfalaf ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth dibreswyl yw £24,000.00.

Sylwer: bydd ailasesiadau ariannol yn cael eu cynnal fel rhan o adolygiad blynyddol y Cyngor o daliadau gan ystyried y cynnydd mewn budd-daliadau wedi'u huwchraddio o fis Ebrill bob blwyddyn. Os bydd eich budd-daliadau / incwm yn newid yn ystod y flwyddyn, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn gynnal asesiad ariannol newydd.

Nid yw gwasanaethau preswyl wedi'u cynnwys yn hyn o beth, gan fod gan y llywodraeth reolau ar wahân ar gyfer taliadau sy'n ymwneud â gofal preswyl.

Sut caiff y tâl ei gyfrif?

Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich trin yn deg, mae gan bawb hawl i gael asesiad ariannol cyfrinachol pan fydd eu pecyn gofal wedi'i gytuno. Mae'r asesiad hwn yn edrych ar eich cyllid cyffredinol, eich anghenion personol a'ch incwm. Bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal gan Swyddog Ymweld, a fydd yn gofyn am fanylion eich incwm, gan gynnwys budd-daliadau, Pensiwn Ymddeol a/neu Bensiwn Galwedigaethol a gewch. Ni fydd eich enillion a gwerth eich prif dŷ yn cael eu hystyried. Bydd angen i'r Swyddog Ymweld hefyd gael manylion unrhyw gyfalaf neu gynilion sydd gennych. O ran gwariant, bydd angen i'r Swyddog Ymweld gael manylion rhent neu dreth gyngor, net o fudd-daliadau, yr ydych yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Os nodir bod angen cymorth pellach, neu wiriad budd-daliadau manylach, byddwch yn cael rhifau cyswllt ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau a/neu sefydliadau perthnasol eraill a all eich helpu.

Ar ôl i ni dderbyn eich manylion, byddwn yn cyfrifo'r tâl wythnosol y gellid gofyn i chi ei dalu am y gwasanaeth presennol a ddarperir.

Mae ein hwythnos codi tâl yn dechrau ar ddydd Sadwrn ac yn dod i ben ar ddydd Gwener ac yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad ariannol, codir taliadau am unrhyw wasanaethau yr ydych wedi'u cael yn ystod yr wythnos codi tâl.

Beth os byddaf yn gwrthod rhoi unrhyw wybodaeth?

Nid oes rhaid i chi ddatgelu manylion eich materion ariannol, ond os byddwch yn dewis peidio, codir cost lawn y gwasanaethau hyd at uchafswm o £100.00. Drwy rannu eich amgylchiadau ariannol gyda ni, efallai y bydd eich asesiad yn nodi y dylech dalu llai neu beidio talu o gwbl. Os oes dros £24,000.00 ar 11 Ebrill 2022 mewn cyfalaf / cynilion, codir y gost lawn am yr holl wasanaethau a dderbynnir, hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos.

* Caiff y lefel gyfalaf hon ei newid yn flynyddol bob mis Ebrill yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ar ôl i'ch incwm gael ei asesu, byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion y gwasanaethau y codir tâl amdanynt a dadansoddiad o sut rydym wedi cyfrifo eich tâl wythnosol.

Sut ydw i'n talu?

Gellir talu drwy'r dulliau canlynol:

- Archeb Sefydlog yn uniongyrchol o'ch banc;
- Cerdyn talu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Swyddfa'r Post;
- Arian parod neu siec yn ein swyddfeydd taliadau yn yr Orsaf Wybodaeth, Casnewydd;
- Dros y ffôn ar 01633 656656. Derbynnir yr holl gardiau credyd / debyd mawr ac eithrio American Express;
- Ar-lein yn <https://services.newport.gov.uk> Derbynnir yr holl gardiau credyd / debyd mawr ac eithrio American Express.

Os ydych yn talu gyda cherdyn talu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gallwch ei ddefnyddio mewn unrhyw Swyddfa Bost. Gallwch ei ddefnyddio eich hun neu ofyn i ffrind, perthynas neu ofalwr fynd i Swyddfa'r Post i chi. Ni ellir tynnu arian allan, dim ond talu i mewn ac ni fydd Swyddfa'r Post yn codi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.

Beth allwch chi ei wneud os ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg?

Mae gennym broses adolygu, os credwch fod y tâl wedi'i gyfrifo'n anghywir neu os teimlwch y bydd lefel y tâl a osodir yn achosi caledi ariannol.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o fanylion am y cynllun presennol, y newidiadau, sut i ofyn am adolygiad a manylion ar sut i dalu ar gael yn <https://www.newport.gov.uk/cy/Care-Support/Care-and-Support.aspx> neu gallwch gysylltu â'r Tîm Cyllid ac Incwm ar 01633 656656.

ENGHRAIFFT 1

Cost pecyn gofal yw £86.26 yr wythnos i ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n 65 oed. Cyfradd Credyd Pensiwn Sylfaenol yw £182.60

	Credyd Pensiwn a mwy Lwfans Gweini
Credyd Gwarant	£75.81
Pensiwn Ymddeol	£106.79
Lwfans Gweini	£92.40
Incwm y gellir ei asesu	£275.00
Didynnu Swm Credyd Pensiwn Sylfaenol	£182.60
Didynnu 35% o'r Credyd Pensiwn Sylfaenol (Byffer)	£ 63.91
Didynnu 10% o'r Credyd Pensiwn Sylfaenol (Gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd)	£ 18.26
Cyfanswm Didyniadau	£264.77
Incwm Gwario	£10.23
Tâl Wythnosol a Aseswyd	£10.23

Mae'r pecyn gofal yn costio £86.26 yr wythnos. Fodd bynnag, dim ond £10.23 o incwm gwario sydd gan y person uchod ar ôl wedi'r lwfansau, felly dim ond £10.23 yr wythnos y gellir ei godi.

ENGHRAIFFT 2

Cost pecyn gofal yw £240.00 yr wythnos i ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n 65 oed. Cyfradd Credyd Pensiwn Sylfaenol yw £182.60.

	Credyd Pensiwn a mwy Lwfans Gweini
Pensiwn Ymddeol	£138.90
Pensiwn Galwedigaethol	£148.00
Lwfans Gweini	£92.40
Incwm y gellir ei asesu	£379.30
Didynnu Swm Credyd Pensiwn Sylfaenol	£182.60
Didynnu 35% o'r Credyd Pensiwn Sylfaenol (Byffer)	£ 63.91
Didynnu 10% o'r Credyd Pensiwn Sylfaenol (Gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd)	£ 18.26
Cyfanswm Didyniadau	£264.77
Incwm Gwario	£114.53
Tâl Wythnosol a Aseswyd	£100.00

Mae'r pecyn gofal yn costio £240.00 yr wythnos. Fodd bynnag, £114.53 o incwm gwario sydd gan y person uchod ar ôl wedi'r lwfansau, felly dim ond £100.00 yr wythnos y gellir ei godi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw un o'r uchod, ffoniwch y Tîm Cyllid ar 01633 656656.